Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **CYFARWYDDIAETH:** | Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |
| **ADRAN:** | Gwasanaethau Plant a Theuluoedd / Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd |
| **SWYDD:** | Rheolwr Tîm Plant a Theuluoedd |
| **GRADD Y SWYDD:** | GR14 |
| **YN ATEBOL I'R:** | Rheolwr Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd |

**DIBEN Y SWYDD:**

Darparu arweinyddiaeth strategol a rheolaeth weithredol a datblygu gwasanaethau Cymorth Cynnar ar gyfer plant a phobl ifanc mewn 3 Canolfan Ardal ar draws y sir a sicrhau bod yr holl wasanaethau'n canolbwyntio'n effeithiol ar ymyrryd ac atal yn gynnar, gan arwain at well canlyniadau i blant, pobl ifanc, a'u teuluoedd.

Bod yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu partneriaethau lleol, amlasiantaethol effeithiol i gynorthwyo darparu gwasanaethau o ansawdd i gymunedau lleol.

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Darparu rheolaeth weithredol a sicrhau synergedd ar draws 3 Canolfan Cymorth Cynnar, gan ganolbwyntio ar wasanaeth cydlynol, cyson, ac effeithiol i blant a theuluoedd er mwyn atal uwchgyfeirio unrhyw faterion presennol.
- Gweithio mewn partneriaeth agos gyda'r Rheolwr Tîm Ar Ffiniau Gofal a Rheolwyr Tîm Diogelu er mwyn sicrhau bod plant a theuluoedd yn cael mynediad at gymorth sy'n diwallu eu hangen a nodwyd.
- Arwain a chadeirio paneli sy'n cynorthwyo'r Rheolwr Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd a phartneriaid i sicrhau bod plant a theuluoedd yn cael mynediad at y gwasanaethau cywir ar yr adeg iawn.
- Cynnwys defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr wrth gynllunio a datblygu gwasanaethau.
- Rheoli staff ac ymgymryd â goruchwylio ac arfarnu, gan roi cyngor ac ymgynghori i staff gwaith cymdeithasol a staff cymorth arall yn unol â'r polisi. Rheoli staff yn unol â fframweithiau polisi a gweithdrefnau Adnoddau Dynol a glynu atynt.

Teuluoedd yn Gyntaf
Families First

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

- Arwain, a gweithio mewn partneriaeth â'r swyddog Sicrhau Ansawdd, i weithredu'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd o fewn Cymorth Cynnar. Mynd â dysgu a nodwyd i dimau er mwyn gwella darpariaeth gwasanaethau.
  - Sicrhau bod ymarferwyr yn adeiladu perthnasoedd perthnasol ac yn gweithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc, gan ddarparu ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn unol â chanllawiau lleol a statudol.
  - Gweithio'n gynhyrchiol gydag awdurdodau lleol eraill, ysgolion, iechyd, a sefydliadau cymunedol i hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol a sicrhau dull integredig, sy'n ystyried barn gweithwyr proffesiynol eraill yn llawn.
  - Cynorthwyo'r Rheolwr Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd i ddatblygu polisi a strategaeth ar gyfer y gwasanaeth Cymorth Cynnar, gan sicrhau ei fod yn effeithiol, yn addasu i newid ac yn cyflawni canlyniadau da i deuluoedd gan ganolbwyntio'n benodol ar gynyddu nifer y plant sy'n cael eu cynorthwyo i fyw gyda'u teuluoedd heb yr angen am gymorth gan wasanaethau plant statudol.
  - Gwybod y diweddaraf am bolisi'r Cyngor a gwasanaeth, tueddiadau cenedlaethol, ymchwil, canllawiau'r Llywodraeth, materion cyfreithiol, ac ati i sicrhau bod gwasanaethau a ddarperir gan y timau yn berthnasol, yn gyfredol ac yn addas at y diben.
  - Cyfrannu at gyfarfodydd strategol/rheoli a gweithio amlddisgyblaethol ac amlasiantaethol effeithiol. Cynorthwyo'r Rheolwr Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd i sicrhau bod gwaith y maes gwasanaeth yn cael ei wneud yn effeithiol ac yn effeithlon gan gynnwys gwerthuso cyflawni amcanion, targedau, blaenoriaethau a safonau.
  - Cyflwyno gwybodaeth gymhleth yn ysgrifenedig ac yn bersonol i amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys gyda theuluoedd, fforymau proffesiynol fel Penaethiaid Gwasanaeth neu aelodau'r Cyngor a chydweithwyr.
  - Arwain/cynorthwyo'r ymchwiliad i gwynion gan ddefnyddwyr gwasanaethau/perthnasau/gofalwyr ac ymateb i'r rhain, gan gynnal ymchwiliadau fel y bo'n briodol a rhoi gwybod am ganfyddiadau i'r Rheolwr Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd.
  - Arwain a darparu diwylliant o ddatblygiad proffesiynol parhaus ar draws y timau Cymorth Cynnar, drwy gyfleoedd hyfforddiant, dysgu ac ymchwil priodol ar y cyd â'r Rheolwr Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd a SCWDP.
  - Rhoi gwybod i'r Rheolwr Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd am gamau gweithredu sy'n angenrheidiol i ddatblygu cymwyseddau staff yn y maes gwasanaeth yn ogystal â'r angen posibl i gychwyn gweithdrefnau disgyblu a chymryd rhan yn y gweithdrefnau hyn lle y bo angen.
  - Dirprwyo dros y Rheolwr Cymorth i Deuluoedd pan fo angen

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

**Iechyd a Diogelwch**
Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

**Cyfle Cyfartal**
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion neu'r Gwasanaeth IAA Plant o fewn MASH.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

**Gwiriad Cofnodion Troseddol**

Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

# Manyleb y Person

## Rheolwr Tîm Plant a Theuluoedd

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol (Ydy).

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • Addysg hyd at lefel gradd/cymhwyster proffesiynol cydnabyddedig sy'n berthnasol i faes plant a theuluoedd.<br>• Cymhwyster rheoli neu'n gweithio tuag at hyn. | Ydy<br>Ydy | Cyflwyno tystysgrifau cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Profiad sylweddol o waith uniongyrchol teulu cyfan cymhleth gyda phlant/eu teuluoedd o fewn cyd-destun cymorth cynnar, yn ogystal â llunio a gweithredu cynlluniau ymyrryd effeithiol gyda theuluoedd.<br>• Gwybodaeth fanwl am y fframweithiau deddfwriaethol, strategaethau a mentrau'r llywodraeth sy'n berthnasol i ddarparu gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Chymorth Cynnar i Blant.<br>• Gwybodaeth am weithdrefnau a threfniadau asesu/rheoli achosion ar gyfer darparu Cymorth Cynnar/Gwasanaethau Cymdeithasol.<br>• Gwybodaeth am weithdrefnau a rheoliadau sy'n ymwneud â rheoli gan gynnwys cyllidebu, | Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy | |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| | gweithdrefnau ariannol, personél a chontractio. | | |
| **Gwybodaeth a Phrofiad (parhad)** | • Gwybodaeth helaeth am ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a'u heffaith ar hwyluso newid cadarnhaol gyda phlant a theuluoedd.<br>• Profiad ôl-gymhwyso o weithio mewn lleoliad gofal cymdeithasol plant neu gymorth i deuluoedd.<br>• Profiad o arweinyddiaeth broffesiynol, gydag atebolrwydd am ymarfer a datblygiad eraill.<br>• Profiad o ddatblygu, treialu, a mireinio modelau darparu gwasanaethau i fynd i'r afael ag anghenion sy'n datblygu ym maes cymorth i deuluoedd a gofal cymdeithasol.<br>• Dangos arbenigedd wrth werthuso effeithiolrwydd gwasanaeth, integreiddio arferion arloesol, ac arwain mentrau sy'n ysgogi gwelliannau ansawdd ar draws y sefydliad. | Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Gallu chwarae rôl arweiniol mewn perthynas â gwasanaethau a staff mewn amgylchedd amlasiantaethol.<br>• Gallu meddwl, dadansoddi, cynllunio a gweithredu'n strategol a datblygu atebion arloesol<br>• Gallu dadansoddi a dehongli'r wybodaeth a gesglir. | Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol (parhad)** | • Gallu asesu risg a chynllunio'n briodol.<br>• Gallu ffurfio perthynas waith adeiladol â chydweithwyr<br>• Sgiliau rhyngbersonol, cyfathrebu (llafar ac ysgrifenedig) a chyflwyno gwych.<br>• Gallu dangos y sgiliau arwain a rheoli sy'n ofynnol i reoli staff a datblygu perthnasoedd cryf ar draws y timau Cymorth Cynnar.<br>• Gallu ysgogi gwelliannau i wasanaethau ac ymgorffori arfer gorau mewn Cymorth Cynnar drwy gydol y timau.<br>• Gallu gweithio’n hyblyg, trefnu eich llwyth gwaith eich hun a gweithio'n effeithiol o dan bwysau er mwyn sicrhau effeithiolrwydd gweithredol yr holl dimau Cymorth Cynnar.<br>• Sgiliau TG da.<br>• Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |